Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xxxix. TACHWEDD, 1939 Rhif 11.

Pobl Fawr Cymru Fu.

[*Parhad o dudalen* 155.]

II

Bardd-forwr.

Cyfnod o egni a menter neilltuol ydoedd amser y Frenhines Elisabeth, ac yr oedd pobl Prydain, fyd ac eglwys, fel pe baent newydd ddihuno i fywyd eangach, ar ôl bod mewn cwsg hir. Meddiennid llawer hefyd o wŷr ieuainc Cymru gan yr ysbryd antur a gymhellasai Drake a Raleigh dros y cefnfor i bellderau'r byd. Nid rhyw bur iawn, y mae'n rhaid addef, ydoedd rhai o'r cymhellion a ddenodd i'r môr, yn yr oes honno, liaws o fechgyn cefnog ein hen-wlad. Troent yn wir yn herwyr, a mor-ladron, ac â dwylo blewog yn rhy aml yr ymgyfoethogent,—trwy ysbeilio llongau'r Spaenwyr pan ddoi'r rheiny ag aur a gemau adre'n llwythog o Ber-iw. Dyna'r Capten Tomas Prys, mab y Doctor Coch o Blas Iolyn, er enghraifft ; pa beth a'i cymhellodd ef i droi'n llongwr ? Mewn cywydd doniol, cymysg o Gymraeg a Saesneg, fel hyn y rhydd inni hanes un o'i anturiaethau :

" Tybio, ond mudo i'r môr,
Y trawswn ar bob trysor ;
Prynais long, prinheis y wlad
Am arian, i'r cymeriad ;
Futliais hon, burion, yn bêr,
Futlio, lle'r oedd aml fwtler.
Ffarwel Ingland, a'r sand sych,
A Sili, ynys haelwych !
Rowl away with reiol wings,
I barlio, tua'r Bwrlings."

Yna, ar ôl cwrdd ag un o longau'r Ysbaen, ac ymosod arni, nid llwyddiant, ond aflwyddiant, a ddaw i ran Tomas a'i fintai :

" Ag wrth ymladd, gwarth amlwg,
We lost our men, ar lestr a mwg ;
Ffowc Hari, labi libin,
Is drowned, acw 'ngwrês y drin ;
Wenffordd, Rowland, and Winffild,
Wiliam, and Cobam, is kild ;
Our ship is, wrth ymgripio,
Weak, and ffwl of leak, belô.
Dowt yma, o daw Tomas,
Adre'n siŵr o'r gloywddwr glas ! "

Yn ffodus, fe ddychwelodd Tomas adref yn ddiogel, ac yn hwyrddydd ei oes, fe'i difyrrai ei hun yn ei hendref, Plas Iolyn, trwy weu cywyddau,—rhai ohonynt yn ddifyr, ereill yn ddwys.

Ni bu Domas heb dwymyn—y boeth Gad ;
Ond beth ei gwerth, wedyn ?
Aeth Rhyfel hwnt, eithr fe lŷn
Adlais deulais ei delyn.

Llenydda mewn Cad-long.

Yn holl hanes ein gwlad, anodd ydyw nodi Cymro dewrach a mwy dawnus na'r Capten Wiliam Middleton, neu Miltwn (Gwilym Canoldref). Mab ydoedd i Syr Richard Middleton, ceidwad Castell Dinbych. Bu'n gwasanaethu fel ysgrifennydd i'r Cadfridog Wiliam Herbert, Iarll Penfro, a bu'n swyddog yn yr Isel-diroedd o dan y bardd-filwr Syr Philip Sidney. Cymerodd ran flaenllaw hefyd ym mrwydrau morwrol ei amser, a bu'n gapten ar un o'r llongau rhyfel mwyaf yn llynges Elisabeth. Ar waethaf ei alwedigaeth filwrol, fe ymhyfrydai Wiliam Middleton yn llwybrau llenyddiaeth Cymru, a hoff ydyw meddwl amdano, ar fwrdd ei gad-long fawr, gerllaw Ynys Scutum yn y West Indies, yn gorffen ei gyfieithiad i'r Gymraeg o Salmau Dafydd. Digwyddodd hynny yng ngwanwyn 1596.

Dethlir yr amgylchiad diddorol hwn o orffen cyfieithu'r Salmau, mewn lle mor bellennig, yn y " Fawlgerdd farwnad i'r Capten Wiliam Miltwn ", a gyfansoddwyd gan ei gyd-oeswr, Edward Cyffin :—

" Gorffennodd, hwyliodd hoyw eiliaid—ei waith
Yn nhud pell estroniaid ;—
Do, ar randir yr Indiaid
Gorllewin, rhwng eu blin blaid."

Fel ei ddau frawd o Lundeinwyr,—Syr Thomas a Syr Hugh Middleton,—fe lynai Wiliam yn dynn wrth iaith ei hen-wlad, a bu ei gyfathrach a'r Awen yn foddion, yn ddiamau, i liniaru ynddo nwydau Rhyfel.

" Miltwn ! fe'th garwn ; ar gewri—cedyrn
Cadau y rhagori ;
Er cad wallcof, dy ddofi
A wnaeth gwên ein Hawen ni."

Masnachwr Gwlatgar.

Brawd i Wilym Canoldref, oedd Syr Thomas Middleton, masnachydd llwyddiannus yn Llundain. Bu'n Sirydd y Ddinas yn nheyrnasiad Elisabeth, ac yr oedd yn Arglwydd Faer arni yn y flwyddyn 1613. Yn hanes Cymru fe gofir byth amdano fel y gŵr a ddug hanner y draul o ddwyn allan yr argraffiad rhad cyntaf o'r Beibl Cymraeg, sef ' Y Beibl Bach ', a werthid am goron. (Dywaid rhai, er hynny, mai i'w fab, o'r un enw, y perthyn yr anrhydedd hon.)

Am yr argraffiad hwn o'r Beibl y canodd yr ' Hen Ficer ' fel hyn :—

" Mae'r Beibl Bach yn awr yn gyson
Yn iaith dy fam i'w gael er coron ;
Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw,—
Mae'n well na thref dy dad i'th gadw."

Cyfoethogion Llengar.

Cydymaith Syr Thomas Middleton yn yr anturiaeth o ddwyn allan y ' Beibl Bach ' oedd yr Henadur Rowland Heilyn. Gŵr o Lan-y-myneich ger Croes-oswallt oedd hwn ; ymsefydlodd yn Llundain, casglodd gyfoeth fel marsiandwr, ac ymddyrchafodd i swyddi anrhydeddus yno, canys bu yn henadur ac yn sirydd y brif-ddinas.

Cymro gwlatgar oedd Heilyn, a heblaw cyfrannu yn hael tuag at ddwyn allan Feibl rhad, dug hefyd y draul o argraffu yr ' Ymarfer o Dduwioldeb ', a gyfieithesid o'r Saesneg i'r Gymraeg, gan Rowland Fychan o Gaer Gai, gŵr a oedd cyn enwoced fel bardd a llenor, ag ydoedd ei gâr a'i gyfenw o'r Hengwrt fel hynafiaethydd.

Yn ei henaint, yr oedd yr uchelwr o Gaer Gai yn bleidiwr selog i'r Brenin Siarl I, a dywedir i filwyr Olifer Cromwell—' y Pengrynion '—losgi ei blas i'r llawr.

" Mil chwe chant, gwarant gwir-rai—yn digwydd,
Pump a deugain difai,
Er dwyn, i'r gwŷr adwaenai,
Ar gof, pan losgwyd Caer Gai."

Dyma fel y canodd Rowland Fychan pan welodd ei gartref yn ulw :—

" Pe cawn i'r Pengrynion
Rhwng ceulan ac afon,
Ac yn fy llaw goed-ffon o lin-on ar li,
Mi a gurwn yn gethin
Yng nghweryl fy mrenin,—
Mi a'u gyrrwn yn un byddin i'w boddi."

MWYNIANT YR HEN.

Prydydd o ddyffryn Ardudwy oedd SIÔN PHYLIP, a dywedir mai efe oedd bardd teulu Cors y Gedol. Trigai mewn fferm fechan ym Mochras, ar lan y môr ym Meirion, ac arferai glera cryn lawer, hynny yw, mynd i ymweled â boneddigion ei wlad, a chanu i'w difyrru a'u diddanu.

Disgybl i Ruffydd Hiraethog ydoedd Siôn Philip, ac ystyrid ef yn hyddysg mewn tair iaith, y Gymraeg, y Saesneg, a'r Lladin. Ei waith mwyaf adnabyddus ydyw ei gywydd i '*Wylan y Môr*'. Pan oedd mewn gwth o oedran, canodd yn felys iawn i '*Fwyniant yr Hen*' :

" Ifanc, ifanc a ofyn ;
Henaint, at henaint y tyn ;
Canu seilm, o cawn oes hen,
Canu i Dduw, cynnydd awen ;
Cyd-adrodd a'n cyd-oedran
Hen ystoriâu, onest ran ;
Coffâu dyddiau, da oeddynt,
Gwiw sôn gwrs, a gawson' gynt."

Wrth ddychwelyd o'i daith olaf yn Sir Fôn, ac yntau yn hen ŵr ar fin ei bedwar ugain mlwydd oed, fe foddodd y bardd ger Pwllheli, a dygwyd ei gorff adref mewn cwch i Landannwg. Yr oedd ei fab Gruffydd yn y bad a gludodd yr arch o Lŷn i Feirion, a chanodd i'r rhwyfwyr fel hyn :—

" O fwynion ddynion ! bob yn ddau,—i fôr
Cydfwriwch eich rhwyfau ;
Tynnwch ar draws y tonnau,—
A'r bardd trist yn y gist gau ! "

CLEDLYN.

(*I'w barhau*).

Y Ddau Ffoadur Bach.

Gan Mrs. A. Rees, Llanelli.

Tua hanner awr wedi unarddeg safwn ger y ffenestr, a mantell y "Black-out" wedi ei lapio'n dynn am danaf. Edrychwn i bob cyfeiriad yn y gobaith o weld rhyw belydryn o oleuni yn rhywle, ond ni welwn ddim ond y noson ddu, dim lloer, dim sêr, dim lamp, a phob ffenestr a'i mantell ddu amdani. Pan oedd fy ngobaith ar droi'n anobaith, dyna fodur yn dod i fyny'r heol yn ddistaw ac araf, a'i lampau wedi eu gorchuddio heibio i'r hanner, fel pe ofnai dynnu sylw rhyw bŵerau anweledig. Pasiodd ein tŷ ni, ond ar ôl cyrraedd tŷ Mrs. Williams, dri drws yn nes i fyny, safodd. Yn union, dyna ddrws y tŷ yn agor, gan ollwng allan ffrydlif o oleuni, nes goleuo'r heol o un ochr i'r llall. Yna gwelwn ddau fachgen bach gwelw yn dod allan o'r cerbyd, a'u "Gas-masks" yn hongian dros eu hysgwyddau, a dolen o rubanau gwyrdd a melyn ar eu cotiau—nôd hunaniaeth. Yn union, dyna Mrs. Williams yn dod allan i'w croesawu yn ei dull caredig ei hun. Arweiniodd hwy i'r tŷ, a chauodd y drws, a'r tywyllwch a gymerodd le'r goleuni yn ddiarbed.

Symudodd y modur yn araf yn ei flaen. Aeth i'w ffordd ei hun, gan adael yr ystrŷd a minnau mewn distawrwydd ac unigedd dwfn.

Tarawodd y digwyddiad rhyw dant rhyfedd yn fy ymwybyddiaeth. Mor afresymol a gwrthun yr ymddangosai'r drychfeddwl am bobl yn yr oes olau hon yn ofni goleuni, ac yn cuddio o dan fantell dew y "Black-out", fel y wâdd o dan y dywarchen, er mwyn diogelu eu bywydau rhag y tân, neu'r nwy gwenwynig, a ddichon ddisgyn o'r cymylau wrth arch y gelyn. Nid oes angen ymhelaethu, gŵyr pawb y sefyllfa.

"Ond," meddai rhywun, "beth am y ddau fachgen bach,—pwy oeddynt,—ai plant Mrs. Williams oeddynt?

Na, nid plant Mrs. Williams oeddynt, ond dau frawd bach o Lerpwl yn ffoi rhag llid y dialydd i fod yn blant mabwysiadol iddi am ryw gymaint o amser. Noel ac Alan yw eu henwau. Y mae Noel yn naw mlwydd oed, ac Alan bach yn ddim ond saith, er hynny, efe yw'r siaradwr.

Dywed rhai mai ffolineb ydyw busnes yr "Evacuation" yma i gyd. Oni bai am suddiad yr "Athenia", pryd y boddwyd mamau a phlant, a'r bomio fu ar blant bach Poland, dywedwn innau mai ffolineb ydyw hefyd. Yn ôl fel y mae pethau heddiw, y mae'n anodd bod yn rhy ofalus am y plant bach diniwed.

* * *

Gair i'r plant am y ddau " Ffoadur Bach ", er mwyn dangos mor debig ydyw plant bach Lerpwl i blant Sir Aberteifi a Sir Forgannwg a phob Sir arall.

Nid peth hawdd i blentyn ydyw gadael ei rieni, a'i gartref, a'i gyfeillion, a'i wlad, a chael ei yrru yn ddisyfyd i wlad ddieithr, i dref ddieithr, ac i gartref dieithr, lle y siaredir iaith ddieithr. Nid rhyfedd, ynte, fod Noel ac Alan bach yn hiraethlon pan ddaethont i Lanelli gyntaf. Yr oedd plant y lle i gyd yn ddieithr iddynt, ac nid oeddynt yn siarad yr un fath a hwy. Y mae'r acen yn wahanol iawn yma i'r hyn ydyw yn Lerpwl ; felly, nid oeddynt yn uno yn y chwaraeon. Yr unig beth a hoffent chwarae ag ef oedd " Tim y Gath ", ond, yn anffodus, nid oedd Tim yn hoffi chwarae â hwy, crafai hwy yn lled ffyrnig weithiau. I wneud i fyny am anfoesgarwch y gath, fe brynodd Sid, sef mab y tŷ, gi bach iddynt. Y mae ci yn barod i chwarae bob amser. Cafodd Alan yr anrhydedd o enwi'r ci, a'r enw a ddewisodd oedd "Dinkie". Enw newydd sbon o Lerpwl, 'rwy'n siŵr.

Yn wir, wn i ddim p'run gwaeth ydyw bod yn Ffoadur neu bod yn gi bach i ddau ohonynt. Y mae ganddo stori lled druenus i'w dweud yn yr ardd weithiau. Hwyrach bod y ddau am ei godi yr un pryd, a bod Noel yn tynnu'n ôl ac Alan yn tynnu ymlaen, a Dinkie yn protestio ac yn dweud yn ei iaith ei hun—" Un ar y tro, Bois."

Beth feddyliwch chwi, blant Sir Aberteifi, am hyn ? Nid oedd yr un ohonynt yn leicio ymenyn ar eu bara ar y dechrau, yr oedd yn well ganddynt " Margarine ". Erbyn hyn, tipyn o dric yw cael ganddynt fwyta " Margarine " ar ddim. Buont am ddyddiau yn poeni Mrs. Williams am gael pen dafad i wneud cawl, a'r siars bob tro, am beidio tynnu'r llygaid allan cyn dod ag ef adref. Cawsent eu dymuniad, a mwynhawyd y wledd yn fawr.

Bydd Mrs. Williams yn anfon Alan i negesa i'r siop weithiau. Nid yw yn rhoi arian iddo i dalu, bydd hi yn talu pan fydd yn mynd allan. Nid oes berigl iddi anghofio, oherwydd bydd Alan yn gofyn sawl gwaith yn y dydd " A ydych chwi wedi talu am y *goods* fum i yn hôl o'r siop sydd ar y cornel, Mrs. Williams ? " Y mae elfen talu yn Alan beth bynnag.

Y mae'r ddau fach yn fwy cartrefol yn awr. Y maent yn yr ysgol bob dydd, ond nid yn yr un ysgol. Unant yn y chwaraeon, ac edrychant yn fwy hapus. Y mae Alan yn siarad peth Cymraeg hefyd. Yr oeddwn yn mynd allan un prynhawn tua phump o'r gloch, a phan welodd Alan fi dyna fe yn rhoi " Bore da " i fi !

Y mae llawer ohonynt yn y dref yma, a'r syndod yw, eu bod mor fodlongar a dirwgnach. Hyd y gwelaf fi, y mae pawb yn garedig a thosturiol iawn wrthynt. Gobeithio y gwawria'r dydd yn fuan pryd y cant ddychwelyd i'w haelwydydd eu hunain mewn diogelwch. " 'Does unman yn debig i gartref."

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1939—40.

(Trefnwyd gan Mri. D. Emrys Rees, B.Sc., Cwrtnewydd a T. Bryn Jones, B.Sc., Tregroes.)

SAFON I. (o dan 8 oed).

A.—Gwers : Darllenwch yn ofalus :—

Mab Elisabeth a Secharias, yr offeiriad, oedd Ioan Fedyddiwr. Daeth angel at yr offeiriad ac addawodd iddo fab, a dywedodd wrtho am ei alw yn Ioan. Bu Ioan fyw yn galed iawn. Nid yfai win, a'i fwyd oedd ffa'r locust, a mêl, a gwisgai ddillad garw o flew camel. Am ei ganol gwisgai groen anifail. Daeth Ioan yn bregethwr da iawn ar ol iddo dyfu yn fawr. Cerddai pobl filltiroedd er mwyn ei glywed. Ni phregethai mewn capel na theml, ond yn yr anialwch. Er hynny cawsai gyrddau mawr. Pan addawai dynion fyw yn dda byddai Ioan yn eu bedyddio.

Un tro, ar ol pregeth dda, daeth Iesu Grist ato i'w fedyddio. Yr oedd Iesu ac Ioan yn perthyn i'w gilydd. Gwyddai Ioan fod Iesu yn fwy ac yn well nag ef, a dywedodd hynny wrth y bobl.

Pan oedd yn bedyddio Iesu yn afon Iorddonen daeth ysbryd Duw arno, yn ddistaw bach, megis colomen, a chlywodd y dorf lais Duw yn arddel ei fab. O'r funud honno dechreuodd Iesu ei waith mawr o gychwyn Teyrnas Dduw ar y ddaear.

Taflwyd Ioan, druan, i garchar, a thorrwyd ei ben ymaith gan y brenin Herod, er mwyn bodloni gwraig ddrwg o'r enw Salome. Y mae pobl ddrwg bob amser yn ddig iawn wrth bregethwr da.

B.—Atebwch y cwestiynau hyn :—

Beth oedd enw mam Ioan Fedyddiwr ? Beth oedd enw ei dad ? Beth oedd gwaith ei dad ? Pwy a addawodd fab i'r offeiriad ? Beth oedd enw'r mab ? Pwy a roddodd yr enw arno ? Sut yr oedd Ioan yn byw ? Pa beth oedd ei fwyd ? Sut ddillad a wisgai ? Beth oedd am ei ganol ? Pa beth oedd ei waith ? A oedd pobl yn hoff o'i glywed ? Sut gapel oedd ganddo ? Ymhle y pregethai Ioan ? Pa beth oedd raid i ddynion addo iddo ? Pa beth a wnai Ioan â hwynt ? Enwch un pwysig a ddaeth ato. Beth oedd Ioan yn feddwl am Iesu ? Ymhle y bedyddiwyd Iesu ? Pa beth a deimlodd Iesu ? Pa beth a

glywodd y bobl? Pa beth a ddechreuodd Iesu ei wneud wedi ei fedydd? I ba le y taflwyd Ioan? Gan bwy? Sut y bu farw? Pwy a dwyllodd Herod i ladd Ioan? Enwch un arall a laddwyd gan ddynion drwg.

C.—Dysgwch ar gof :—

(*a*) " Myfi yw llef un yn llefain yn y diffeithwch. Paratowch ffordd yr Arglwydd. Gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef."

(*b*) Pennill cyntaf Emyn 469 *Perlau Moliant.*

SAFON II. (o 8 i 12 oed).

Y gwaith a drefnwyd i Safon III am fis Hydref llynedd. Gweler Ymofynnydd Hydref 1938, tud. 158-9. Dysger y pennill cyntaf o Emyn 469 *Perlau Moliant* yn ogystal a Luc ii, 46-51.

SAFON III (o 12 oed i fyny).

A.—Gwers.

Darllener Pennod VII o " Hanes Iesu i Blant " (T. O. Williams, M.A.) yn drwyadl ac yna ateber y cwestiynau hyn :—

B.—Cwestiynau :

I ba le yr aeth Iesu wedi ei fedyddio? (Gweler diwedd Pennod vi.) I ba le yr aeth wedi hyn? Ym mha le yr oedd ei gartref? I ba le yr arferai Iesu fynd ar y Sabath? Pa beth a wneid yn y Synagog ar y Sabath? (Gweler dechrau Pennod iv). Pa beth a ofynnwyd i Iesu i'w wneud yno? Pa beth a ddarllenodd? Pa beth a swniai yn y geiriau a ddarllenodd? Pa beth a wnaeth heblaw darllen? Pa beth a ofynnai'r bobl i'w gilydd? Pa beth a ddisgwyliai'r bobl weled? A gawsant eu dymuniad? A roddodd Iesu ryw arwydd iddynt? Pa fodd y teimlai'r bobl tuag ato? Pa beth a wnaethpwyd iddo? A gyffyrddodd un o'r dyrfa ag ef? Paham? Pa beth a ddywedodd Iesu? I ba le yr aeth Iesu o bentref Nasareth? I ba le yr aeth yno? Pa beth oedd Iesu hyd yn hyn? Pwy oedd yn y Synagog pan aeth Iesu yno? Pa beth a ddywedai'r Iddew am ddyn gwael ei iechyd? Pa beth a wnaeth Iesu i'r dyn afiach? I ba le yr aeth Iesu wedyn? Pwy oedd yn afiach yn nhŷ Simon Pedr? Pa afiechyd a'i blinai? Pa beth a wnaeth Iesu iddi? Pa beth oedd canlyniad iachau chwegr Simon? Pa fôr oedd yng ngwlad Canan? Pa beth oedd gwaith gwŷr glan y môr hwnnw? Enwch un o bysgotwyr môr Galilea. I ba le yr aeth Iesu i bregethu ar lan y môr? Pa beth a geisiodd ef gan Simon ei wneud wedi diwedd y bregeth? A ufuddhaodd Simon? Pa beth a fu'r canlyniad? Paham yr ofnai Simon? Pa beth a geisiodd gan Iesu i'w wneuthur? Paham y gofynnai Simon i Iesu gadw draw? Pa beth oedd ateb Iesu iddo? Pwy oedd gyda Simon yn y llong? Pa beth a wnaeth Simon, Iago ac Ioan wedi glanio? Pa ddau waith a wnai Iesu ar ei daith?

Rhoddwch enw arall ar Fathew. Pa beth oedd gwaith Mathew? I bwy y gweithiai'r publican? (Gweler tud. 6 Pennod I). Pa eiriau a ddywedodd Iesu wrth Fathew? Pa beth a wnaeth Lefi wedi ei alw? Pwy oedd yn y wledd? Pwy oedd yn grwgnach yn erbyn Iesu? Paham y grwgnachasant? (Gweler Luc v, 30). Pa beth oedd ateb Iesu i gyhuddiad y Phariseaid? Pwy oedd y Phariseaid? (Gweler ddiwedd Pennod I). Pwy oedd y Meddyg y soniai Iesu amdano? Pwy oedd y rhai iach? Pwy oedd y rhai claf? Pa gŵyn arall a ddygai'r Phariseaid i'w erbyn? Pa beth oedd arfer pob proffwyd hyd yn hyn? Pa beth a fynnai Iesu ddangos i'r Phariseaid? Pa fodd y dangosodd iddynt mai crefydd newydd oedd ganddo ac nid hen grefydd Israel wedi ei gwella? Darlun o beth yw'r hen ddilledyn a'r hen gostrel yn nameg Iesu? Pa beth oedd y brethyn a'r gwin newydd y cyfeiriai atynt? I ba le yr aeth Iesu wedi gadael tŷ Lefi? Pa beth oedd ei neges yno? Pa gynorthwy a geisiai gan Dduw? Pa beth a wnaeth drannoeth? Enwch y deuddeg disgybl. Ym mha lyfrau o'r Testament Newydd y ceir eu henwau? O ba ran o'r wlad y daeth unarddeg ohonynt? O ba le y daeth Judas? Pa beth oedd gwaith y mwyafrif ohonynt? Pa un ohonynt oedd y Nationalist? Pa beth yw ystyr Nationalist? Pa beth a olyga'r gair Iscariot? Pa ddau orchymyn a roddodd Iesu i'w ddisgyblion cyn cychwyn ohonynt ar eu gwaith mawr? Mewn pa beth y disgwylid iddynt gredu?

C.—Dysgu ar gof:

(*a*) Luc iv, Adn. 16, 17, 18 a 19.

(*b*) Y pennill cyntaf Emyn 469.

Cynghrair y Gwragedd.

Rhanbarth Ceredigion.

Yn wyneb yr amgylchiadau newydd oherwydd y rhyfel daeth cynulliad da ynghŷd i gyfarfod y pwyllgor yng Nghapel y Bryn ar Fedi 30. Yr oedd yno frwdfrydedd, a'r aelodau'n unfryd unfarn dros ddal ymlaen weithgarwch yr adrannau yn ystod misoedd y gaeaf. Er hynny ofnid y bydd y gorchmynion ynglŷn â'r golau a'r dognu bwyd yn atal gweithgarwch llawn.

Llywyddwyd gan Miss Jones, Gellifaharen, a chymrwyd y gwasanaeth agoriadol gan Miss Evans, Melrose Park. Yr oedd awyrgylch y cyfarfod yn ddefosiynol, a phwysleisiwyd hynny yn yr areithiau godidog. Cydsyniai'r siaradwyr ag awgrym y llywydd "fod gwasanaeth y Cynghrair mor angenrheidiol heddiw ag erioed".

Derbyniwyd gwahoddiad caredig yr is-lywydd, Mrs. T. O. Williams, i gynnal y cyfarfod blynyddol ym Mrondeifi ar Hydref 28 am 1.30 o'r gloch. Anerchir y cyfarfod gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A., a cheir hefyd hanes ei hymweliad a'r Gynhadledd yn Llundain gan Miss Evans, Ffynnon Fair.

Bydd gwaith y tymor yn gyffelyb i waith llawer o fudiadau ereill yn bresennol —sef gwau a gwnïo ar gyfer y milwyr.

Wedi'r cyfarfod croeshawyd yr ymwelwyr i dê gan yr adran leol dan lywyddiaeth Miss Thomas, Cledlyn Side.—K.J.

Dan Rhydwen.

Nid rhyw lawer sy ar ôl yn ei nabod wrth yr enw Dan Rhydwen. Ond i'w hen gyfeillion ni wnaeth ei wisgoedd swyddogol, a'u newid gyda phob dyrchafiad, ddim i'w ddieithrio. Tra'n cyflawni gyda gallu a medr nid bychan ei holl ddyletswyddau cymhleth, a dal i fyny'n naturiol a di-ymdrech anrhydedd ei safle, ni chollwyd y llanc o'r wlad yn y Dirprwy-Uwch-Gwnstabl. Ganwyd ef yn llanc, a bu farw—nid yn blismon—ond yn llanc, ieuanc ei feddwl a'i ysbryd. Gwir iddo gael cystudd, ond cymharol fyr ac ysgawn a fu, a chredaf iddo ymado â'r fuchedd hon yn gymharol ddiboen a dibryder. Er iddo gael gweld dyddiau'r addewid, ymddangosai flynyddoedd lawer yn iau, a chredai, a dymunai ei leng cyfeillion a chydnabod fod nawnddydd hir ac euraid yn ei aros, er budd a phleser yr holl sir, ac yn enwedig ei dref fabwysiedig. Ond nid felly y bu. Collwyd ef, yn annisgwyl i'r rhan fwyaf o'i ffrindiau ; a cholled fawr ydoedd.

Yn y dyddiau tywyll hyn yn arbennig, y cyfraniad gorau a ellir ei wneud i eraill yw dwyn tipyn o heulwen i'w bywyd. Yn wir mae dyn a wna hyn yn gwneud y gwasanaeth mwyaf posibl i'w gyd-ddynion.

Un llon a chysurus ydoedd Dan Thomas. Nid sirioldeb y gŵr sy'n mynd drwy'r byd heb weld yr ochr arall i bethau, ond sirioldeb wedi ei seilio ar anian mewn cytgord â'r gorau ymhob dyn, ac ar synnwyr cyffredin cryf a gweledïad dwfn a threiddgar. Yr oedd yn iechyd bod yn ei gwmni. 'Roedd bob amser yn ddiddorol ; oblegid teimlai ef ei hun ddiddordeb mewn pob math o bobol.

Yr oedd yn deall dynion i'r dim ; yn wir yr oedd ei dreiddgarwch bron yn anhygoel. Ni ddarllenodd yr un llyfr ar seicoleg ; ond yr oedd yn deall y meddwl dynol yn drwyadl. 'Roedd yn hynod o gall, yn ymylu ar fod yn gyfrwys, yn yr ystyr orau ; yn yr ystyr nad hawdd mynd dros ei ben, fel y dwedem yn y wlad. Ac os trechid ef mewn dadl, nid eid dros ei ben ; er y cyfaddefai ei fod wedi ei drechu. Yr oedd ganddo allu rhyfedd i weld, a chyfleu, ochr ddigrif pobl a phethau. Ac yr oedd ganddo gasgliad dihafal o storïau o bob math. Yr oedd ei hiwmor a'i gydymdeimlad, a'i ddoethineb yn ei wneud yn fedrus dros ben i drin pobl a ddeuai i afael y gyfraith.

Y mae ychydig ohonom yn ei gofio'n grwt ; deallus, siriol, hardd ei gorff a'i osgo, yn sgolor gwell na'r cyffredin o'i oed, ac yn Sais a Chymreigiwr uwchlaw ei gyfoedion. Heblaw hyn, yr oedd yn gerddor gwych ac yn ddeheuig iawn ymhob gwaith yr ymaflai ynddo. Yr oedd yn foneddwr wrth natur, hawdd iawn iddo oedd ymddwyn yn weddaidd ymhob cwmni, â'i gyfaddasu ei hun at bob cylch. Yr oedd y gallu hwn yn seiliedig ar gydymdeimlad deallgar â phawb. Yr oedd yn anodd iddo beidio a bod yn hynaws, yng nghymdeithas dieithriaid fel gyda'i ffrindiau gorau.

Meddai'r ddawn o guddio unrhyw ddiflastod a deimlai, fel y teimlwn i gyd, pan ddown yn agos at rai pobol. Camesbonir y ddawn hon gan rai o'r doethion hynny na allant oddef y fath gwmpnïaeth ; ymfalchïant yn y ffaith dybiedig eu bod nhwy yn ddynion strêt, drwy ddweud neu ddangos yn blaen eu teimladau o gasineb. Ond byddaf i fy hun yn ymochel rhag y bobl strêt sydd yn cael pleser drwy ddweud ' gwirioneddau ' cas wrthyf.

Sut y tyfodd Dan Thomas yn gymeriad mor siriol, diddorol, a deallgar ? Nid yw'n gwestiwn anodd ond gwybod tipyn am ei amgylchoedd cynnar, hynny yw, ei deulu agos. Digon garw, a thwp, ac anfoesgar oedd llawer ohonom ni blant cyffiniau Siôn Cwilt ; cystal cyfadde' hynny'n blaen. Ond ni chawsom i gyd fanteision ein cyfaill Dan Thomas. Yr oedd ei dad a'i fam yn ddau gall, a synhwyrol tuhwnt i'r cyffredin ; yn meddwl, ac yn darllen yn feddylgar, ac yn aelodau selog o gapel y Bwlch. Yr oedd Nel ei fam o deulu eithriadol o dda, ac yn fenyw neilltuol o alluog a diddorol. Bum yn ei chwmni lawer gwaith, ac erys arnaf yr argraff ei bod o gymeriad cyfoethog a chryf.

Ganed iddynt dyaid o blant, a Dan oedd yr ienga'. Yr oedd pob un o'r plant yn serchog, caredig, galluog, ac yn gymeriad ar ei ben ei hun : Dafy Lonlas, Sam Llangrannog, Thomas Greengrove, J. R. Thomas Ysgolfeistr, Ifan Aberaeron, Bet, yr unig ferch, a Dan. Ifan yw'r unig un ar ôl, efe ar bwys ei bedwarugain, ond yn heini a chryf, a'i stori mor flasus ag erioed.

Byddai Dan, fel y rhelyw o'r teulu, yn mwynhau pregeth ac emyn, a'r rhan defosiynol o'r gwasanaeth, ond nid yn aml y byddai'n sôn am gyfrin bethau crefydd. Nid yw dyn iach yn sôn llawer am ei dumewn ; yn wir arwydd o afiechyd yw hynny'n aml. Ym mywyd beunyddiol dyn y mae barnu ei grefydd. A medr bywyd Dan Thomas ddal goleuni mwyaf treiddgar barn o'r fath.

Gwnaeth ddiwrnod da o waith i daenu hedd yn ei gylch llydan, a gwasgar goleuni meddwl clir, a gwres caredigrwydd a sirioldeb. Heddwch i'w lwch.

S.

Beth a wnaf fel y byddwyf gadwedig ?

Fel un a fagwyd i gredu mewn Beibl anffaeledig ei hanes a'i fathrawiaeth ac mewn effeithiolrwydd bod yn aelod eglwysig trwy fedydd a chonffirmasiwn i gadw enaid, parwyd llawer o bryder i mi wrth ddarganfod nad oedd y naill na'r llall o'r rhain yn medru dal eu tir yn wyneb goleuni ymchwil a beirniadaeth. Trallod ydoedd meddwl am y rhagolygon ysbrydol i'r neb a gollodd angorfa'r gred hon.

Ni cheir Iddew goleuedig heddiw a ddeil bod Beibl ei synagog ef, ſef ein Hen Destament ni, yn anffaeledig, heb sôn am ysgolheigion Cristnogol. Y mae'n wir werthfawr tu hwnt rhoi pris arno fel cronfa o ffeithiau hynafol yn hanes Israel ac o dystiolaethau cyfamserol, lu ohonynt, â'r digwyddiadau a gofnodir. Ond i hanesydd yn hytrach nag i grefyddwr y mae gwerth y pethau hyn. Nid yw athrawiaeth y rhannau hynaf ohono chwaith yn gydnaws â'n teimlad o beth y dylai Duw fod, canys mewn llu o gysylltiadau ynddo gwelir mai Duw a grewyd ar ddelw dyn yw Iehofa. Yn aml y mae'r gorchmynion a briodolir iddo yn dramgwydd i'n teimladau dyngarol a'n syniad o degwch.

Cydnabyddwn ei werth mawr o'i ddeall yng ngolau tyfiant y meddwl dynol mewn gallu i ddirnad ystyr byd a bywyd ac i esbonio lle dyn yn y cread ac mewn cymdeithas, canys rhoddir o'r cychwyn ganddo le mor amlwg i Dduw ym mywyd Israel, a chyrhaeddir syniad cynyddol mewn eglurder ynddo o gymeriad a natur Duw nes y mae'r syniad o Dduw a'i le ym mywyd y byd a geir yn y Proffwydi a'r Salmau yn anghymharol ei ragoroldeb. Meddylier am feddylddrych Ieremeia ohono yn y geiriau hyn, "Nac ymffrostied y doeth yn ei ddoethineb, nac ymffrostied y cryf yn ei gryfder, ac nac ymffrostied y cyfoethog yn ei gyfoeth, eithr y neb a ymffrostio ymffrostied ei fod yn deall ac yn fy adnabod i, yr Arglwydd, a wna drugaredd, barn, a chyfiawnder ar y ddaear, oherwydd yn y rhai hynny yr ymhyfrydais, medd yr Arglwydd." (Ieremeia ix, 23, 24.)

Y mae'r Proffwydi a'r Salmau'n dryfrith o bethau hafal i hyn, ac oherwydd eu presenoldeb anghofir y diffygion mewn cywirdeb hanes a dysgeidiaeth sydd yn frychau ar adrannau o'r Hen Lyfr. Ni fu colli cred yn anffaeledigrwydd llythyren Beibl yr Iddew o unrhyw anfantais i grefydd ysbrydol. Yn wir, bu'n help i ddarganfod y genadwri anhepgor sydd ynddo i bob oes a gwlad. Pan fo'r gorau sy'n yr Hen Destament yn deffro cydsyniad y gorau sy'n natur y neb a'i darlleno, bydd hynny'n ddigon o dystiolaeth fod Duw'n llefaru drwyddo. Mor ogoneddus yw Duw ar uchelfannau profiad y sant Iddewig! Duw'r Cristion, yr un yw—ond fod rhai nodweddion o'i gymeriad wedi eu tyneru. Y teimlad a'r profiad fod dyn yn yr un byd a Duw, yr awydd am fyw *am byth* yn y byd hwnnw—dyna wobr orau bywyd. Yng ngeiriau'r Salmydd, "Pe'th gawn Di, ni cheisiwn ddim arall yn y nef nac ar y ddaear." (Salm lxxiii, 25. Cyf. Luther.)

Fel Cristnogion y mae gennym ychwanegiad at Feibl yr Iddew, y Testament Newydd —yntau erbyn hyn i'r ysgolhaig a'r meddyliwr yn llawn anawsterau hanesiol ac athrawiaethol. Bu'r tadau'n dadlau ac yn digio wrth ei gilydd ar sail adnodau nad oes ganddynt hawl i fod yn y Testament Newydd, os mai dysgeidiaeth Iesu a'i apostolion sydd i fod yn safon y gred a'r grefydd Gristnogol.

Gellir rhannu dysgeidiaeth y Testament Newydd i ddau brif ddosbarth—sef y ddysgeidiaeth am y *teip o garitor* a'r *teip o brofiad* a gynyrchir trwy ddylanwad y gwirionedd fel y mae yn Iesu, ys dywaid Paul. Gosodir ar wefus Iesu lawer ymadrodd sy'n anghydnaws â'i ysbryd ef. Esbonir hefyd y profiad Cristnogol mewn termau sy bellach wedi colli eu hystyr—ceir enghreifftiau o hynny yn ysgrifeniadau Paul. Eto ni ellir camgymeryd pwyslais Iesu na rhagoroldeb ei ysbrydiaeth yn ei ddysgeidiaeth. Ni ellir ychwaith gamgymeryd gwirionedd y profiad Cristnogol o fod mewn heddwch â Duw, ac yn llawn o awydd bod mewn heddwch â dynion, a chael dynion i heddwch â Duw, ac â'i gilydd—profiad y sieryd Paul mor huawdl amdano.

Yn wyneb pob ansicrwydd am fanion bethau ac am allanolion bethau ynglŷn â'r Testament Newydd, onid digon i ddyn er achub ei enaid yw cymryd tystiolaeth ei brofiad ei hun, pan ysgydwir ef i ddyfnderoedd ei ysbryd gan apêl y " nôd uchel o alwedigaeth Duw yng Nghrist ? " Yn ei ddysgeidiaeth ef cenfydd awdurdod nid fel eiddo'r ysgrifenyddion, a chaiff yn ei gwmni ef gefnogaeth anesboniadwy i'r gwaethaf ddod yn deilyngach ac i'r gorau ddod yn well. Y mae Iesu'n dod a Duw yn agos at ddyn, ac yn gosod nôd bywyd i ddyn yn yr un byd a Duw.

Dyma'n hatebiad i'r gofyniad uwchben hyn o lith,—Beth a wnaf fel y byddwyf gadwedig ? Yn wyneb apêl y gorau a gyffyrdd ag ef ymddirieded dyn yn nhystiolaeth ei ysbryd, a boed deyrngarol iddo. Nid yw'r " gair allanol " na'r " golau allanol " yn effeithiol i gadw enaid hyd nes y deffroir adlais y " gair mewnol " a chynneu fflam y " golau mewnol ". " Os yw'r golau sydd ynot yn dywyllwch, pa faint fydd y tywyllwch ! "

Cyrddau'r Hydref.

Cofnodion y Pwyllgor.

Cynhaliwyd y Pwyllgor yng Nghaeronnen ar Hydref 18, y Parch. Simon Jones, B.A., Llywydd y Gymdeithas, yn y gadair. Yr oedd cynrychiolwyr yn bresennol o'r mwyafrif o'n heglwysi'n y sir. Offrymwyd gweddi gan y Llywydd. [Ymddengys manylion am Gyrddau'r Hydref yn y rhifyn nesaf.—Gol.]

Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y pwyllgor blynyddol.

YSGRIFENNYDD.—Gan na welai'r Parch. J. Marles Thomas, M.A. ei ffordd i ymgymeryd â'r swydd gofynnwyd i'r hen ysgrifennydd gadw ymlaen hyd y cyrddau blynyddol. Pasiwyd ymhellach fod y pwyllgor i'w alw cyn y cyrddau blynyddol a rhoddi ystyriaeth i'r mater o enwebu ysgrifennydd. Rhoddwyd rhybudd gan y Parch. J. Islan Jones, M.A. y bydd iddo'n y cyrddau blynyddol gynnig fod pob swyddog yn cael ei enwebu yng nghyrddau'r Pasc o hyn allan yn unol â rheolau'r Gymdeithas.

Y DRYSORFA.—Deallwyd oddiwrth y trysorydd fod amryw o'r cynull-eidfaoedd heb ddod i fyny a'u *quota* yn eu casgliadau am y flwyddyn. Pasiwyd derbyn y cyfrifon am 1938, a mynegodd y trysorydd y byddai'r cyfrifon am y flwyddyn hon yn llaw'r argraffwyr ym mis Mawrth er mwyn cyhoeddi'r adroddiad erbyn cyrddau'r Pasc.

COLEG CAERFYRDDIN.—Pasiwyd gwneud grant o £25 i drysorfa adeil-adu'r Coleg.

TRYSORFA'R BWRDD PRESBYTERAIDD.—Ers rhai blynyddoedd y mae Undodiaid Cymru'n cyfrannu'r swm o £25 y flwyddyn tuag at helpu cyfarfod â'r draul o gynnal myfyrwyr y Coleg yng Ngholeg y Brifysgol yn Abertawe. (Y mae'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn cyfrannu symiau hefyd i'r un perwyl.) Ar hyn o bryd y mae'r drysorfa hon mewn dyled, a daeth cais oddiwrth bwyllgor y myfyrwyr yn gofyn am ganiatâd i ddileu'r ddyled yma â grant o drysorfa'r myfyrwyr, gan fod gan honno arian mewn llaw. Pasiwyd rhoi caniatâd am eleni yn unig.

PENRHIW.—Pasiwyd gwneud ychydig adgyweiriadau ar Gapel Penrhiw. O bydd y swm sydd yng ngweddill o'r adgyweirio o'r blaen yn annigonol pasiwyd fod hawl gwario o £3 i £4 o gyllid y Gymdeithas.

CYRDDAU'R PASC.—Gadawyd i'r ysgrifennydd drefnu lle cynnal y cyf-arfodydd hyn.

ARAITH Y LLYWYDD A'R BREGETH.—Pasiwyd y byddai'n ddymunol fod y rhai hyn o flwyddyn i flwyddyn yn ymddangos yn yr YMOFYNNYDD, neu o leiaf grynhodeb sylweddol ohonynt. Pasiwyd fod yr ysgrifennydd i ofyn amdanynt a'u rhoi yn llaw'r golygydd.

Diolchodd y Llywydd yn gynnes i'r cyfeillion yng Nghaeronnen am eu croeso a'u caredigrwydd.

E. O. JENKINS.

PARADWYS.

PAN fyddo'r hydre'n brathu'r berth,
A'i niwl ar y gorwelion,
Af heibio i'r llynnoedd llonydd, llwyd,
I erddi Shoni'r Eidon.

Rhyw gornel o baradwys Duw
O ddwndwr yr hen ddaear
Obry'n y cwm, yng nghanol coed,
A siant y nant a'r adar.

A lle bu'r gyrrwr yn byw a bod—
Yn cyfarth y mae'r cadno,
Ac ni ddaw neb na chlywir sŵn
Y gwdi-hw yn crio.

A phell fo'r dydd pan ddelo'r haid
Sy'n crwydro ar draws y cread
I wybod am y gerddi gwyllt
Ar ffiniau Ffynnon Ffeirad.

Pan fyddo'r hydre'n hydre hael
Ei gnau a'i fwyar duon,
Dof adre'n llwythog ambell hwyr
O erddi Shoni'r Eidon.

Prengwyn. IFAN JONES.

Priodas.

Yng nghapel Pantydefaid, Llandysul, dydd Sadwrn, Hydref 14 unwyd mewn glân briodas JOHN JONES, Fronlâs a MARY DAVIES, Cilgwyn-bach. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog a'r Parch. R. Morris (B), ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. D. Davies. Bendith y nef a fyddo ar yr uniad hapus hwn.

Marwgofion.

Drwg iawn gennym orfod cofnodi marwolaeth y cyfaill hawddgar DANIEL THOMAS, Cliff Side, Llanbadarn Road, Aberystwyth, a ddigwyddodd hwyr Gwener, Medi 23 ar ôl cystudd o ryw dri neu bedwar mis. Mab ydoedd i Mr. a Mrs. David Thomas, Rhydwen, Talgarreg, a brawd felly i Mr. J. R. Thomas, Pontshân a Mr. Thomas Thomas, Green-grove, ac felly yn un o deulu a fu yn dŵr o nerth i Undodiaeth Ceredigion yn ei ddydd. Hyd y gwyddom, ganed ef yn y lle uchod yn y flwyddyn 1870. Cafodd ei addysg yn ysgol y bwrdd Talgarreg, ac wedi gadael yr ysgol arferai am rai blynyddoedd wedyn fynychu'r ysgol nos a gynhelid yn yr un lle. Dechreuodd ddiwyllio'i feddwl yn gynnar a pharhaodd i wneud hynny trwy ei oes. 'Roedd yn ddarllenwr mawr yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, ac ymhlith cylchgronau eraill darllenai'r Ymofynnydd yn gyson er ei ieuenctid. 'Roedd yn ddyn o allu meddyliol cryf, cymerai ddiddordeb dwfn ymhrif bynciau'r dydd, ac yr oedd bob amser yn gydymaith difyr a diddorol. Yn 1894 ymunodd a heddlu ei sir enedigol o dan y Prifgwnstabl Howell Evans, ac ar y dechrau gwelodd amser lled ystormus ar adegau, am mai dyma'r pryd yr oedd rhyfel y degwm yn ei rym yn Nê Aberteifi. Bu yn heddgeidwad mewn amryw bentrefi a threfi yn y Sir ac yn fawr ei barch ymhob un ohonynt. Cyn ymddeol o'r heddlu yn 1934 'roedd wedi cyrraedd y ffon uchaf namyn un ynddi, a phawb yn siarad yn uchel am dano. Wedi treulio tair blynedd yn Llundain er bod gyda'i fab Trefor a oedd yn paratoi i fod yn feddyg, daeth yn ôl i Aberystwyth lle yr etholwyd ef yn fuan wedyn yn aelod o Gyngor y Dref. Y blynyddoedd diwethaf yma mynychai'r gwasanaeth yn lled gyson ynghapel bach Heol Newydd a chyfranai'n hael at yr achos. Daearwyd ei weddillion yng nghladdfa gyhoeddus y dref y dydd Mawrth canlynol i'w farw, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. John Evans, Iorwerth Davies a Dan Evans. Dymunwn estyn ein cydymdeimlad trylwyraf i'w weddw a'i fab yn eu colled a'u galar.

Medi 29, HANNAH THOMAS, gweddw y diweddar Thomas Thomas, Green Grove, Talgarreg, yn 81 mlwydd oed, gan adael merch, dau fab, dwy wyres, dwy chwaer, a llawer o berthynasau ereill a chyfeillion i weld ei heisiau. Ers blynyddoedd anfynych y gwelid hi oddicartref: yr oedd ei gofal a'i meddwl bron i gyd yng nghlwm wrth ei haelwyd. Yr oedd yn fenyw o feddwl a barn hollol annibynnol: meddyliai drosti ei hun, a ffurfiai farn drosti ei hun, a hynny ar faterion pwysig y dydd. Yr oedd ei thad—John Thomas, Felin Rhydowen yr adeg honno—yn un o'r rhai a drowyd allan o'u cartrefi ar ôl etholiad 1868. Cofiai hi'r amser yn dda, a medrai draethu ar y dyddiau hynny'n ddiddorol ac effeithiol. Cofiai'n well byth y troad allan o hen Gapel y Llwyn yn 1876 a'r hyn a olygai hynny i'r gynulleidfa. Synnwn i ddim na fu'r digwyddiadau hynny'n symbyliad iddi feddwl a holi a chymryd y diddordeb a wnai mewn materion pwysig. Ergyd trwm iddi oedd colli ei phriod, yr annwyl a'r ffyddlon Thomas Thomas un mlynedd ar bymtheg yn ôl i'r dydd y bu hithau farw, ac yn ddiweddarach ei merch, Minnie. Er iddi ddangos gwroldeb mawr yn y ddau dro yr oedd yn amlwg fod yr ergydion wedi gwneud eu hôl. Wrth ei cholli hi collodd ardal Talgarreg un o'i chymeriadau hynaf, a bydd ei lle'n wag i'r rhai a arferai alw yn Green Grove. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol, yr angladd yn gyfyngedig i'r perthynasau ac ychydig gyfeillion, ym mynwent Capel y Fadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, ac wrth y bedd gan y Parch. H. Ponsford.

Prynhawn dydd Mercher, Hydref 18 daeth llu mawr ynghyd ar droed ac mewn cerbydau i dalu'r gymwynas olaf i'r diweddar JOHN JAMES EVANS, mab Mr. a Mrs. Saunders Evans, Bwlchymynydd, Llanybyther. Yr oedd yr ymadawedig yn adnabyddus iawn i gylch eang ac hoffid ef yn fawr gan bawb. Gwelwyd ef bob amser yn siriol a charedig, ac er mai bregus oedd ei iechyd, ni chlywyd ef erioed yn cwyno eithr daliai yn ysbrydol a chalonog dros ben. Yr oedd ganddo luaws o gyfeillion, hen ac ieuanc, a siaradent yn uchel amdano fel cymeriad hawdd ac addfwyn. Yr oedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Rhydybont. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parchn. Griffith Jones, Capel-y-groes ; Stephen Jones, Llansawel ; a W. Henry Jones, Rhydybont, hefyd Mri. Idris Evans, Rhydcwmerau a Edgar Davies, Penboyr (Myfyrwyr yn Athrofa Caerfyrddin). Y mae Mr. a Mrs. Saunders Evans yn aelodau o Gapel-y-groes, a chydymdeimlwn yn fawr â hwy a'u plant yn eu profedigaeth chwerw o golli un mor ifanc.

Nodion yr Eglwysi.

CILIAU AERON A RHYDYGWIN.—Gwasanaethwyd yn y Cyfarfodydd Diolchgarwch yn y blaenaf gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., ac wrth yr organ gan Mrs, Jones, A.L.C.M., Cil-llwch, Dihewyd : yn y llall gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., ac wrth yr organ gan Miss Ceridwen Evans, Gelligwefrwch.

ABERDÂR.—Cynhaliwyd cyfres o oedfaon Diolchgarwch am y Cynhaeaf ar Hydref 1 yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Trefnwyd cael y Parch. Ellis H. Morris, M.A., B.D., Southport i wasanaethu, ond daeth terfysg rhyfel ar draws ein byd, a rhwystrwyd Mr. Morris gadw ei gyhoeddiad. Rhaid oedd ad-drefnu, a daeth ein parchus weinidog i'r adwy. Felly'r Parch. E. R. Dennis a wasanaethodd eleni. Cawsom oedfaon wrth ein bodd a chenadwri werthfawr. Yr oedd pawb wedi mwynhau ei wasanaeth ac wedi derbyn budd nid bychan o'i genadwri.

LLUNDAIN.—Yn absenoldeb y Parch. T. O. Williams, M.A. gwasanaethwyd yn yr oedfa ar Hydref 1 gan y Parch. T. L. Jones, Leytonstone. Yr oedd tua hanner cant yn bresennol. Wedi'r oedfa cynhaliwyd Cwrdd Eglwys i benderfynu ynglŷn â gwasanaethau'r dyfodol. Siaradwyd gan Dr. R. O. Jones (y cadeirydd), a'r Parchn. J. Arthur Pearson a T. L. Jones. Penderfynwyd parhau cynnal y gwasanaethau ar waethaf yr anawsterau a'r peryglon, y 'black-out' a'r cyrchoedd o'r awyr. Wrth gwrs, disgwylir y bydd ein cynulliad yn llai na'r hanner, a'n casgliadau felly hefyd. Sylweddolwyd na allai llawer o bregethwyr o'r wlad ddod i fyny i Lundain yn awr, ac na fedrem ninnau dalu eu treuliau. Rhaid felly newid ein dull i raddau, ond penderfynwyd yn unfrydol i *gario ymlaen*. Pregethir yn y gwasanaeth yn Eglwys Unity, Islington, N.1. ar Dachwedd 5 am 4.15 o'r gloch gan Dr. R. O. Jones, M.Sc.

GELLIONNEN A'R GRAIG.—Cynhaliwyd y Tê blynyddol a'r Basâr ar Fedi 21, a bu yn agos i bum cant o bobl yn eistedd wrth y byrddau. Nid heb lawer iawn o bryder y cynhaliwyd yr ŵyl eleni yn herwydd yr amgylchiadau, ond fe'i derbyniwyd gyda chroeso gan gymdogaeth gyfan. Agorwyd y Basâr gan Mrs. H. H. Morgan, Trebanos, a chadeiriwyd yn y seremoni agor gan Miss A. Morgan, llywydd yr adran leol o Gynghrair y Gwragedd. Gyda phennill tlws cyflwynwyd blodeuglwm i Mrs. Morgan gan Eirlys Ayres. Siaradwyd hefyd gan Mrs. Arthur Williams, ysgrifennydd yr adran ; Mrs. M. T. Davies ; Mrs. J. R. Williams, Y.H. ; Mr. John Hopkin, a'r gweinidog. Yr oedd y *stalls* a'r byrddau'n arddangos crefft a diwydrwydd a llafur hunan-aberthol yr adran yn ystod y flwyddyn. Gwerthwyd yn llwyr, a diolchir am gymorth parod caredigion pell ac agos. Hyderir, wedi cael y cyfrifon i gyd, y bydd swm sylweddol yn llaw trysorydd yr adran, Miss E. H. Hopkin. Diolchir i'r chwiorydd am eu brwdfrydedd dros leihau'r ddyled sy'n aros ar y Neuadd newydd.

Ar Hydref 15 a 16 cynhaliwyd y Cyfarfodydd Blynyddol. Ymhob un o'r pedair oedfa yr oedd cynulliadau lluosog, a phregethwyd yn rymus gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.